



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol: canllawiau i weithwyr gofal cymdeithasol

Gwybodaeth am bwy sy'n gymwys i gael y taliadau a sut y bydd y rhain yn cael eu gwneud.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Ebrill 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Gorffennaf 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Diben y cynllun

Rheoli'r cynllun a'r broses hawlio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Taliad

Rhan un: Pwy sy'n gymwys

Amser a weithiwyd yn ystod y cyfnod perthnasol

Mathau o gyflogaeth

Absenoldeb yn ystod y cyfnod amser perthnasol

Staff ar secondiad ac wedi'u hadleoli

Os ydych wedi gwneud mwy nag un swydd yn y cyfnod amser

Os oes gennych fwy nag un swydd

Materion trawsffiniol

Swyddi cymwys

Cwestiynau ar gymhwysedd

Rhan dau: Gweithredu

Rhan tri: Apeliadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Diben y cynllun

Cyflwynwyd y cynllun hwn i gydnabod a gwobrwyo gwaith caled ac ymrwymiad staff gofal cymdeithasol sydd wedi darparu gofal hanfodol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod pandemig COVID-19. Mae Gweinidogion Cymru'n dymuno gwobrwyo gweithwyr iechedd a gofal cymdeithasol am eu hymdrechion diflino yn yr amgylchiadau mwyaf heriol hyn.

Rheoli'r cynllun a'r broses hawlio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli'r gwaith o gyflawni'r cynllun mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Maent yn gyfrifol am gysylltu â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i gasglu gwybodaeth am staff cymwys. Bydd awdurdodau lleol yn dosbarthu ffurflenni hawlio i gyflogwyr gofal cymdeithasol a fydd wedyn yn eu trosglwyddo i'w staff. Ni fydd ffurflenni hawlio ar gael drwy unrhyw ddull arall. Dylai unigolion godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am unrhyw agwedd ar y broses gyda'u cyflogwr/cyn-gyflogwr, a fydd wedyn yn dwyn hyn i sylw'r awdurdod lleol.

Taliad

Mae'r taliad yn daliad untro o £735 ar gyfer staff cymwys amser llawn neu ran-amser.

Dim ond un taliad y cewch ei dderbyn (hyd yn oed os ydych wedi gwneud mwy nag un swydd yn y cyfnod hwn). Ni ddylech hawlio mwy nag unwaith gan y bydd hyn yn cael ei ystyried yn dwyll.

Gwneir y taliad drwy eich cyflog. Bydd didyniadau'n cael eu gwneud ar gyfer treth incwm, yswiriant gwladol a phensiwn, lle bo hynny'n berthnasol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi eithrio'r taliad bonws o dreth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r cynllun fel y bydd y rhan fwyaf o bobl yn derbyn £500 ar ôl didyniadau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Os ydych yn talu treth ar y gyfradd sylfaenol (20%), mae'n debygol y byddwch yn derbyn tua £500 net. Os ydych yn ennill o dan y trothwy treth efallai y byddwch yn derbyn mwy na £500 ac os ydych yn talu treth ar y gyfradd uwch byddwch yn derbyn llai, yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol.

Os ydych yn derbyn budd-daliadau, efallai yr hoffech gael cyngor ar sut y gallai'r taliad hwn effeithio ar y swm a gewch.

Os yw'n well gennych, gallwch dderbyn £735 mewn pum rhandaliad misol o £147 drwy nodi hyn ar eich ffurflen gais. Nid yw'r opsiwn hwn ar gael os nad ydych yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol nawr a byddwch yn cael eich talu gan eich cyflogwr blaenorol.

Os nad ydych yn dymuno derbyn y taliad hwn, am ba reswm bynnag, peidiwch â llenwi'r ffurflen hawlio.

Rhan un: Pwy sy'n gymwys

Amser a weithiwyd yn ystod y cyfnod perthnasol

Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio am o leiaf naw diwrnod/sifft rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021 i dderbyn y taliad hwn. Nid oes rhaid i hyn fod ar ddiwrnodau olynol nac ar gyfer yr un cyflogwr gofal cymdeithasol. Mae'r cyfnod gofynnol hwn yr un fath ar gyfer staff amser llawn, staff rhan-amser, staff asiantaeth neu staff ar gontractau 'dim oriau'.

Mathau o gyflogaeth

Rhaid ichi fod yn aelod o'r gweithlu cyflogedig. Nid yw gwirfoddolwyr, gofalwyr di-dâl, myfyrwyr, interniaid di-dâl a phobl y telir lwfansau iddynt yn hytrach na chyflog wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Ni fwriedir i hyn ddiystyru'r cyfraniad gwerthfawr a wnaed gan y grwpiau hyn o bobl, ond mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y gweithlu gofal cymdeithasol cyflogedig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae unigolion a gyflogir ar gontractau dros dro mewn swyddi cymwys (a amlinellir isod) ac sydd wedi gweithio am o leiaf naw diwrnod/sifft yn ystod y cyfnod amser perthnasol wedi'u cynnwys i gael y taliad. Mae staff achlysurol yn cael eu cynnwys os ydynt yn bodloni'r un gofynion.

Mae gweithwyr asiantaeth sy'n cyflenwi dros dro ar gyfer unrhyw un o'r swyddi cymwys wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad os ydynt wedi gweithio'r isafswm naw diwrnod/sifft gofynnol yn ystod y cyfnod amser perthnasol. Gellir cynnwys staff hunangyflogedig hefyd mewn rhai amgylchiadau hefyd.

Absenoldeb yn ystod y cyfnod amser perthnasol

Byddwch yn derbyn y taliad hwn os cawsoch eich cyflogi mewn swydd gymwys rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021 ond eich bod yn absennol am y cyfnod cyfan oherwydd eich bod yn gwarchod, ar absenoldeb salwch hirdymor, ar absenoldeb mamolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu. Y rheswm dros hyn yw i sicrhau nad ydych o dan anfantais oherwydd cyflwr iechyd neu nodwedd warchoddedig arall o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Nid ydych wedi'ch cynnwys ar gyfer y taliad hwn os ydych wedi dewis cymryd seibiant gyrfa drwy gydol y cyfnod hwn. Ni fyddwch yn derbyn y taliad os ydych wedi cael eich diswyddo am gamymddwyn difrifol, yn ystod neu ers y cyfnod hwn.

Staff ar secondiad ac wedi'u hadleoli

Fe gewch y taliad os ydych ar secondiad neu wedi eich adleoli i rôl gofal cymdeithasol gymwys o rôl nad yw'n gymwys a'ch bod wedi gweithio am 9 diwrnod/sifft yn ystod y cyfnod amser perthnasol.

Fe gewch y taliad os ydych wedi bod ar secondiad neu wedi'ch adleoli i rôl nad yw'n gymwys ond eich bod yn parhau i gael eich cyflogi mewn swydd gymwys (gweler isod).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Os ydych wedi gwneud mwy nag un swydd yn y cyfnod amser

Os ydych mewn swydd iechyd neu ofal cymdeithasol wahanol nawr i'r swydd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021, dylech hawlio'r taliad drwy eich cyflogwr presennol.

Os oeddech yn gweithio i'r GIG yn ystod y cyfnod dan sylw, ond bellach yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol, dylech hawlio drwy eich cyflogwr presennol. Efallai y bydd angen i'ch cyflogwr presennol wneud gwiriadau i wirio eich cyflogaeth flaenorol.

Os nad ydych bellach yn cael eich cyflogi ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol, dylech hawlio gan eich cyflogwr iechyd neu ofal cymdeithasol diweddaraf. Dylai eich cyflogwr blaenorol geisio cysylltu â chi, ond efallai yr hoffech chi gysylltu â nhw rhag ofn nad oes ganddynt eich manylion cyswllt cyfredol.

Os oes gennych fwy nag un swydd

Os ydych yn cael eich cyflogi gan y GIG a gofal cymdeithasol, byddwch yn derbyn y taliad drwy eich cyflogwr GIG. Ni ddylech lenwi ffurflen hawlio ar gyfer eich cyflogwr gofal cymdeithasol gan y gellir ystyried hyn fel ymgais i hawlio ddwywaith.

Os oes gennych ddwy swydd neu fwy mewn gofal cymdeithasol, dylech lenwi'r ffurflen gais ar gyfer y cyflogwr yr ydych yn gwneud y mwyaf o oriau ar ei gyfer. Ni ddylech lenwi mwy nag un ffurflen hawlio gan y gellir ystyried hyn yn dwyll.

Materion trawsffiniol

Nid yw cymhwysedd i dderbyn y taliad yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw, mae'n dibynnu ar eich cyflogaeth. Os ydych yn byw yn Lloegr ond yn gweithio mewn swydd gymwys yng Nghymru byddwch yn derbyn y taliad. Os ydych yn byw yng

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Nghymru ond yn gweithio yn Lloegr, ni fyddwch yn derbyn y taliad. Diben y cynllun yw cydnabod cyfraniad gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi darparu gofal a chymorth i bobl yng Nghymru.

Swyddi cymwys

Mae gofal cymdeithasol yn sector eang ac amrywiol. Mae sefydliadau awdurdodau lleol, y sector preifat a'r trydydd sector yn rhoi cyngor, cymorth a gofal personol i lawer o bobl yn ein poblogaeth.

Bydd y cynllun hwn yn darparu taliadau i dros 100,000 o weithwyr gofal cymdeithasol cyflogedig yng Nghymru. Er hynny, bydd rhai nad yw eu swydd wedi'i chynnwys yma ac rydym wedi nodi rhai egwyddorion sy'n llywio'r penderfyniad ar gymhwysedd.

Egwyddorion sy'n ymwneud â chymhwysedd

- gofal cymdeithasol yw darpariaeth gan gymdeithas o'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a lles person neu grŵp o bobl; gwahanol fathau o ofal, cymorth neu oruchwyliaeth yn benodol, ac eithrio triniaeth feddygol
- mae'r cynllun yn canolbwyntio ar staff mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cefnogi pobl ag anghenion penodol. Nid yw'n canolbwyntio ar staff mewn gwasanaethau sydd ar gael i bawb (gwasanaethau cyffredinol)
- rhoddir y taliad i staff rheng flaen yn unig y tu allan i wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol a darparwyr gofal cofrestredig. Rydym yn gwerthfawrogi bod staff cymorth busnes, gwasanaethau adnoddau dynol, y gyflogres, TG ac uwch reolwyr i gyd yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau, ond ni all y cynllun ymestyn mor bell â hyn
- rhaid cael elfen o gysylltiad rhwng y gwasanaeth a gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Dylai staff gael eu cyflogi gan y gwasanaethau cymdeithasol, eu cyflogi mewn gwasanaethau a gomisiynir gan y gwasanaethau cymdeithasol (ac eithrio tai â chymorth fel y nodir isod) neu eu talu drwy daliadau uniongyrchol. Gall staff hefyd gael eu cyflogi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n derbyn atgyfeiriadau gan y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw gwasanaethau a geir ac a ariennir ar sail gwbl breifat wedi'u cynnwys

- mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y gweithlu gofal cymdeithasol cyflogedig.

Swyddi cymwys

Gwasanaethau cymdeithasol **Wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:**

Holl staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol gan gynnwys; Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, penaethiaid gwasanaeth a'r holl staff o dan y rheolwyr hyn gan gynnwys staff cymorth, gweithwyr cymdeithasol a chynorthwyywyr gwaith cymdeithasol.

Heb eu cynnwys:

Prif Weithredwr, staff awdurdodau lleol nad ydynt yn cael eu cyflogi yn y gwasanaethau cymdeithasol (oni bai bod eithriad penodol wedi'i nodi mewn man arall yn y canllawiau hyn). Staff ategol – glanhawyr a staff arlwygo a gyflogir gan awdurdodau lleol (ac eithrio'r rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal a reolir gan awdurdodau lleol).

Cyd-gyfarwyddiaethau:

Mae staff sy'n gweithio'n uniongyrchol i 'gangen' gwasanaethau cymdeithasol mewn cyfarwyddiaeth ar y cyd wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad. Nid yw cyflogeion sy'n gweithio i 'ganghennau' eraill o gyd-gyfarwyddiaethau neu ar draws y ddau wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad.

Timau amlasiantaethol neu integredig:

Mae staff a gyflogir gan y gwasanaethau cymdeithasol mewn timau integredig, amlasiantaethol neu ranbarthol wedi'u cynnwys. Bydd staff a gyflogir ym maes iechyd yn derbyn eu taliad gan y GIG. Nid yw staff a gyflogir gan asiantaethau eraill wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Tai â chymorth **Wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol gan gynnwys; Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, penaethiaid gwasanaeth a'r holl staff o dan y rheolwyr hyn gan gynnwys staff cymorth, gweithwyr cymdeithasol a chynorthwyyr gwaith cymdeithasol.

Mae staff tai awdurdodau lleol sydd â rolau penodol sy'n darparu gwasanaeth allgymorth i bobl ddiartref ac sy'n gweithio mewn llety argyfwng wedi'u cynnwys.

Staff ategol mewn lleoliadau mawr o fath 'hostel' (sy'n darparu'r holl brydau, mannau cymunedol mawr) – staff diogelwch, cegin a domestig.

Heb eu cynnwys:

Prif Weithredwr, staff awdurdodau lleol nad ydynt yn cael eu cyflogi yn y gwasanaethau cymdeithasol (oni bai bod eithriad penodol wedi'i nodi mewn man arall yn y canllawiau hyn). Staff ategol – glanhawyr a staff arlwy a gyflogir gan awdurdodau lleol (ac eithrio'r rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal a reolir gan awdurdodau lleol). Staff Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Staff tai awdurdodau lleol ar wahân i'r rhai a gynhwyswyd yn benodol.

Staff sy'n gweithio mewn tai cymdeithasol anghenion cyffredinol.

Gweler cwestiwn 1

Byw â chymorth a gofal ychwanegol

Wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:

Mae gweithwyr gofal, rheolwr cofrestredig, cydlynwyr, staff gweinyddu a'r unigolyn cyfrifol sy'n gweithio i'r gwasanaeth cefnogi cymorth cartref cofrestredig yn rhoi gofal i bobl mewn lleoliadau byw â chymorth a gofal ychwanegol yn gymwys i dderbyn y taliad.

Heb eu cynnwys:

Rheolwyr y cynllun, cynorthwyyr a staff ategol. Nid yw cymorth busnes, adnoddau dynol a'r holl staff 'swyddfa gefn' eraill mewn gwasanaethau a gomisiynir wedi'u cynnwys.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Nid yw'r staff mewn llety gwarchod wedi'u cynnwys.

Gweler cwestiwn 2

Gwasanaethau a gomisiynwyd/ atgyfeiriwyd atynt gan y gwasanaethau cymdeithasol

Gweithredu'r gwasanaeth – gofyniad:

Er mwyn i staff fod yn gymwys, rhaid i'r gwasanaeth y'u cyflogir ynddo fod wedi parhau i ddarparu gwasanaeth gofal cymdeithasol am o leiaf 3 mis yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 28 Chwefror 2021.

Gwasanaethau gofal cymdeithasol lle mae staff yn cael eu cynnwys ar gyfer y taliad:

Gall gwasanaethau sector preifat a thrydydd sector gael eu comisiynu gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol neu gellir eu hariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru neu ffynonellau ariannu eraill gan gynnwys awdurdodau lleol.

Er mwyn i staff gael eu cynnwys ar gyfer y taliad, rhaid i'r gwasanaeth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl ag anghenion gofal cymdeithasol penodol, fel arfer o ganlyniad i atgyfeiriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn rhyw fath o asesiad.

Gwasanaethau lle nad yw staff wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:

Nid yw gwasanaethau cyffredinol sy'n hygyrch i lawer o bobl neu i bawb (er enghraifft, rhai mewn grŵp oedran penodol neu sy'n byw mewn lleoliadau penodol) wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Nid yw gwasanaethau a gomisiynir drwy Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi'u cynnwys.

Nid yw staff mewn sefydliadau ymbarél neu sefydliadau nad ydynt yn darparu gwasanaethau rheng flaen yn uniongyrchol i bobl ag anghenion gofal cymdeithasol penodol yn gymwys i gael y taliad. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i CGGC, cymdeithasau gwirfoddol lleol, sefydliadau gofalwyr.

Gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd:

Ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir ar y cyd gan

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, yr asiantaeth arweiniol fydd yn cytuno pwy fydd yn prosesu'r taliadau i staff. Ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir gan wasanaethau cymdeithasol gydag asiantaeth arall, bydd yr awdurdod lleol yn prosesu'r taliadau i staff os yw'r gwasanaeth yn darparu gofal cymdeithasol. Mae staff gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynwyd gan Fyrddau Cynllunio Ardal ar ran yr awdurdodau lleol hefyd wedi'u cynnwys. Nid yw staff gwasanaethau a ariennir drwy'r system cyfiawnder troseddol (Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) yn gymwys ar gyfer y taliad.

Staff sydd wedi'u cynnwys i gael y taliad:

Mae staff rheng flaen cyflogedig sy'n darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol a'r rheolwr llinell/rheolwr tîm wedi'u cynnwys i gael y taliad.

Heb eu cynnwys:

Rheolwyr canol ac uwch reolwyr, cymorth busnes, staff ategol, adnoddau dynol a'r holl staff 'swyddfa gefn' eraill.

CAFCASS Mae staff CAFCASS wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad.

Gwasanaethau prydau yn y cartref **Wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:**

Mae staff rheng flaen gwasanaethau Prydau yn y Cartref awdurdodau lleol a rheolwr llinell/rheolwr y tîm wedi'u cynnwys. Nid yw unrhyw staff eraill yn cael eu cynnwys ar gyfer y taliad.

Heb eu cynnwys:

Nid yw staff o gwmnïau dosbarthu prydau preifat wedi'u cynnwys. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i bawb heb unrhyw asesiad o'u hanghenion (gwasanaeth cyffredinol).

Gweler cwestiwn 3

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cartrefi gofal
cofrestredig
(cartrefi gofal i
oedolion a
chartrefi plant) a
gwasanaethau
llety diogel

Wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:

Staff gofal, Rheolwr Cofrestredig ac Unigolyn Cyfrifol, Cydgysylltydd Gweithgareddau, staff gweinyddol sy'n gweithio yn y cartref gofal unigol. Gweithwyr ategol a staff eraill a gyflogir yn uniongyrchol gan y cartref gofal i ddarparu gwasanaethau sy'n cynnwys cyswllt â phreswylwyr, megis therapi.

Staff dan gontract sy'n darparu gwasanaethau hanfodol bob dydd yn y cartref, megis darparu prydau dyddiol.

Heb eu cynnwys:

Rheolwyr ardal, adnoddau dynol, swyddogion hyfforddi, criwiau cynnal a chadw a staff eraill sy'n darparu cymorth i fwy nag un cartref gofal penodol ac nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan un cartref gofal penodol.

Staff dan gontract sy'n darparu gwasanaethau eraill; er enghraifft gwasanaethau arlwygo neu therapiwtig achlysurol. Trinwyr gwallt, diddanwyr, crefftwyr ac ati nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y cartref gofal.

Staff addysg mewn canolfannau plant diogel ac ysgolion arbennig preswyl (gan gynnwys cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr cymorth dysgu).

Nid yw staff ysbytai annibynnol wedi'u cynnwys yn y rhan hon o'r cynllun gan nad ydynt yn wasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynwyd.

Gweler cwestiwn 4

Canolfannau
preswyl
cofrestredig i
deuluoedd

Wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:

Staff cyflogedig sy'n darparu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol yn uniongyrchol, a'r rheolwr llinell uniongyrchol.

Heb eu cynnwys:

Uwch reolwyr, staff ategol, cymorth busnes a'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaethau swyddfa gefn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gwasanaethau
cymorth cartref

Mathau o wasanaeth:

Mae staff mewn gwasanaethau cymorth cartref a gomisiynwyd gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i ddarparu gofal personol i bobl o ganlyniad i asesiad o anghenion wedi'u cynnwys. Nid yw gwasanaethau cymorth cartref sy'n darparu gwasanaethau i bobl yn breifat yn unig wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Staff sydd wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:

Gweithwyr gofal, rheolwr cofrestredig, cydlynwyr, staff gweinyddol sy'n gweithio i'r gwasanaeth cymorth cartref cofrestredig penodol hwnnw ac unigolyn cyfrifol.

Staff nad ydynt wedi'u cynnwys:

Rheolwyr ardal, adnoddau dynol a staff eraill sy'n darparu cymorth sefydliadol i fwy nag un gwasanaeth cofrestredig.

Cynorthwyyr
personol a
gofalwyr preifat

Wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad:

Mae Cynorthwyyr Personol a gyflogir yn uniongyrchol gan y sawl sy'n derbyn gofal ac a delir drwy daliadau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad.

Heb eu cynnwys:

Nid yw gweithwyr gofal a gyflogir yn uniongyrchol gan y sawl sy'n derbyn gofal heb daliadau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad. Nid yw gweithwyr gofal a gyflogir gan gyfreithwyr neu ddirprwyon a benodir gan y llys wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad.

Gweler cwestiwn 5

Gofalwyr di-dâl

Nid yw gofalwyr di-dâl wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad hwn, sydd ar gyfer aelodau'r gweithlu cyflogedig yn unig.

Gweler cwestiwn 6

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gofalwyr maeth a gofalwyr cysylltu bywydau Mae gofalwyr maeth a gofalwyr cysylltu bywydau yn derbyn lwfans ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn gyflogeion. O'r herwydd, nid ydynt wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad hwn, sydd ar gyfer aelodau'r gweithlu cyflogedig yn unig.

Gweler cwestiwn 6

Gwasanaethau gofal plant a chwarae Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau hyn ar gael i bob plentyn (gwasanaethau cyffredinol) ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhai y mae angen cymorth gofal cymdeithasol arnynt. Nid yw staff o'r gwasanaethau hyn wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad.

Eiriolaeth Mae eiriolwyr yn rhoi cymorth i blant ac oedolion sy'n ymwneud â'u cymorth a chefnogaeth. Nid yw eiriolwyr wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn, sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol (gofal a chefnogaeth).

Cwestiynau ar gymhwysedd

1. Pam y mae rhai staff tai awdurdodau lleol wedi'u cynnwys a staff tai cymdeithasol anghenion cyffredinol wedi'u heithrio?

Nid yw staff tai awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn y cynllun cydnabyddiaeth hwn ar gyfer staff gofal cymdeithasol – ac eithrio staff awdurdodau lleol sydd â rolau penodol i gyflawni gwaith allgymorth gyda phobl ddigartref, staff sy'n gweithio ar y strydoedd ac mewn llety argyfwng. Mae gan y rolau hyn swyddogaeth gofal cymdeithasol benodol gyda grŵp o bobl sy'n agored i niwed.

Mae gweithwyr cymorth mewn llety â chymorth wedi'u cynnwys gan mai nhw yw'r gweithwyr rheng flaen sy'n rhoi cymorth i bobl ag anghenion penodol. Mae staff mewn tai cymdeithasol anghenion cyffredinol yn rhoi cymorth i denantiaid, ond nid yw tai cymdeithasol yn cael eu hystyried yn wasanaeth gofal cymdeithasol gan nad yw wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer pobl ag anghenion penodol am ofal a chymorth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

2. Pam y mae rhai aelodau o staff gofal ychwanegol a byw â chymorth yn cael eu cynnwys ond nid eraill? Pam y mae llety gwarchod wedi'i eithrio?

Mae gweithwyr gofal cartref sy'n gweithio ym maes gofal ychwanegol a byw â chymorth wedi'u cynnwys gan eu bod yn gweithio i ddarparu gofal cofrestredig sy'n darparu gofal a chymorth i bobl ag anghenion asesedig ar gyfer y gwasanaeth hwn. Tenantiaid yw'r bobl sy'n byw mewn lleoliadau gofal ychwanegol a byw â chymorth ac mae hwn yn drefniant gwahanol i gartrefi gofal. Rydym yn gwerthfawrogi bod rheolwyr y cynllun, cynorthwywyr a gweithwyr ategol wedi parhau i roi cymorth i denantiaid yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, gan fod y cynllun yn canolbwyntio ar staff rheng flaen sy'n darparu'r rhan fwyaf o ofal a chymorth, nid yw staff ac eithrio staff gofal cartref mewn gofal ychwanegol a byw â chymorth wedi'u cynnwys.

Nid yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ariannu nac yn comisiynu darparu llety gwarchod. Mae hwn yn drefniant cwbl breifat ac mae ar gael i unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol (gwasanaeth cyffredinol). Gwyddom fod wardeiniaid yn rhoi cymorth gwerthfawr i bobl, ond nid yw hyn yn bodloni'r diffiniad o ofal cymdeithasol ar gyfer y cynllun hwn.

3. Pam y mae rhai staff prydau yn y cartref wedi'u cynnwys ac eraill ddim?

Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu gwasanaeth prydau yn y cartref eu hunain ac maent yn cyfeirio pobl at wasanaethau dosbarthu bwyd masnachol. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i bawb ac nid ydynt yn bodloni'r diffiniad o ofal cymdeithasol ar gyfer y cynllun hwn. Mae gan rai awdurdodau lleol eu gwasanaeth prydau yn y cartref eu hunain ac mae staff dosbarthu rheng flaen wedi'u cynnwys ar gyfer y taliad. Nid yw staff arlwyo a staff eraill wedi'u cynnwys, oherwydd y ffocws ar staff rheng flaen.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

4. Pam y mae mwy o staff mewn cartrefi gofal wedi'u cynnwys na staff mewn gofal ychwanegol?

Mae cartrefi gofal yn darparu gofal personol a llety ac maent yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu mewn perthynas â hyn. Nid yw elfen llety gofal ychwanegol a byw â chymorth yn cael ei rheoleiddio, dim ond yr elfen ofal a ddarperir gan asiantaeth gofal cartref. Ystyrir cartrefi gofal yn aelwydydd mawr lle mae anghenion pobl am ofal personol a llety wedi'u hasesu.

Mae preswylwyr cartrefi gofal yn dibynnu ar staff ategol i ddarparu pob pryd bwyd a glanhau eu hystafelloedd. Mae gan denantiaid mewn lleoliadau gofal ychwanegol gyfleusterau coginio yn eu llety (yn amodol ar asesiad risg) ac mae staff ategol yn glanhau mannau cymunedol ond nid lletyau preifat.

Nid yw taliadau'n ymestyn i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau mewn cartrefi gofal oni bai eu bod yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol (ac eithrio contractwyr sy'n darparu gwasanaethau hanfodol dyddiol e.e. prydau dyddiol).

Darperir gwasanaethau addysg mewn rhai cartrefi gofal cofrestredig i blant ac mewn gwasanaethau llety diogel. Nid yw addysg yn dod o dan ofal cymdeithasol ac nid yw staff sy'n darparu addysg neu gymorth addysg wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

5. Pam nad yw gofalwyr preifat wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn?

Mae rhai pobl yn cyflogi gofalwr i roi cymorth iddynt hwy neu i aelod o'r teulu fel trefniant cwbl breifat. Nid oes unrhyw gyfranogiad gan y gwasanaethau cymdeithasol, nid yw'r gwasanaeth yn dod o dan reoliadau i'w harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae'r gwasanaeth yn gwbl hunangyllidol. Nid yw gofalwyr a gyflogir gan ddefnyddio arian anafiadau troseddol neu esgeulustod meddygol wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn chwaith os yw'r rhain hefyd yn drefniadau preifat nad ydynt yn destun asesiad neu gyfranogiad gan wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

6. Pam nad yw myfyrwyr gwaith cymdeithasol, gofalwyr di-dâl, gofalwyr maeth a gofalwyr cysylltu bywydau wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y gweithlu cyflogedig ac felly nid yw'r rolau hyn wedi'u cynnwys. Nid ein bwriad yw dibrisio'r rolau hyn, ond mae'r cynllun wedi'i anelu at bobl sy'n cael eu cyflogi gan wasanaethau gofal cymdeithasol.

Rhan dau: Gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau a ffurflenni hawlio i awdurdodau lleol a fydd yn eu dosbarthu i gyflogwyr. Os ydych yn debygol o fod yn gymwys i gael taliad, gofynnir i chi lenwi ffurflen hawlio. Gofynnir ichi gadarnhau mai dim ond un hawliad yr ydych yn ei wneud am y taliad gan ei bod yn debygol y bydd gwneud mwy nag un hawliad yn cael ei ystyried yn dwyll. Gofynnir ichi roi caniatâd inni rannu eich rhif yswiriant gwladol â Data Cymru sy'n gwneud gwiriadau i atal twyll.

Bydd cyflogwyr yn nodi gweithwyr asiantaeth sy'n gymwys i gael y taliad ac yn cysylltu â'r asiantaeth berthnasol. Byddwch yn llenwi ffurflen hawlio ac yn ei hanfon yn ôl i'ch asiantaeth. Gofynnir ichi hefyd roi caniatâd inni rannu eich data a chadarnhau mai dim ond un ffurflen hawlio rydych yn ei llenwi. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych wedi gweithio i nifer o wasanaethau.

Gofynnir i weithwyr a staff asiantaeth hefyd a ydych yn dymuno derbyn eich taliad mewn pum rhandaliad o £147. Sylwch mai dim ond os ydych mewn cyflogaeth gofal cymdeithasol ar hyn o bryd y gallwch wneud hyn.

Mae cyflogwyr yn gofyn am y nifer perthnasol o daliadau gan yr awdurdodau lleol. Ar gyfer cyflogeion awdurdodau lleol, bydd hyn yn cael ei gwblhau'n fewnol. Mae awdurdodau lleol yn darparu £735 i gyflogwyr ac asiantaethau ar gyfer pob gweithiwr gofal cymdeithasol cymwys. Mae cyflogwyr hefyd yn hawlio costau ychwanegol am eu cyfraniad at yswiriant gwladol a phensiwn ac yn derbyn ffi weinyddol fechan.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yna, mae Llywodraeth Cymru yn ad-dalu'r awdurdodau lleol am y taliadau y maent wedi'u gwneud.

Byddwch yn derbyn y taliad yn eich cyflog. Ni allwn ddweud pryd yn union y byddwch yn ei gael gan fod hyn yn dibynnu ar ba mor gyflym y bydd awdurdodau lleol yn rhoi trefniadau ar waith i weithredu'r cynllun hwn. Fodd bynnag, gwyddom fod awdurdodau lleol yn gweithio'n gyflym i gyflawni'r cynllun bonws hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Byddwch yn ymwybodol, rydym yn disgwyl gwneud dros 100,000 o daliadau ac felly gall hyn gymryd ychydig o amser.

Os oes gennych bryderon a chwestiynau, siaradwch â'ch cyflogwr yn y lle cyntaf.

Rhan tri: Apeliadau

Mae awdurdodau lleol yn gweinyddu taliadau ar gyfer y cynllun ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r broses hon yn berthnasol pan fo cais am daliad wedi cael ei wrthod gan awdurdod lleol.

Cam 1 – Ailystyried

Bydd y gweithiwr/gweithiwr asiantaeth yn gofyn am ailystyried penderfyniad yr awdurdod lleol/bwrdd iechyd drwy gwblhau Ffurflen Gais i Ailystyried. Bydd rheolwr o'r awdurdod lleol/bwrdd iechyd yn ymgymryd â'r broses ailystyried a gall:

- nodi bod yr ymgeisydd yn gymwys i gael y taliad a gwneud y trefniadau angenrheidiol
- nodi nad yw'r ymgeisydd yn gymwys i gael y taliad ac anfon llythyr ato yn amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad
- cyfeirio'r mater at Banel Apeliadau Llywodraeth Cymru oherwydd natur gymhleth neu unigryw yr amgylchiadau

Bydd y broses ailystyried yn cael ei chwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Os yw'r gweithiwr/gweithiwr asiantaeth yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn cam 1, mae ganddo'r hawl i uwchgyfeirio ei apêl i gam 2.

Cam 2 – Panel Apeliadau Llywodraeth Cymru

Bydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r ffurflen gais ac yn ei hanfon at RecognitionPaymentAppeals@gov.wales. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn y cais.

Mae'r Panel yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, cynrychiolydd awdurdod lleol, cynrychiolydd bwrdd iechyd, cynrychiolydd undebau llafur, cynrychiolwyr cyflogwyr a chadeirydd annibynnol. Unigolyn allanol yw'r cadeirydd, nad yw'n cael ei gyflogi gan unrhyw sefydliad sy'n rhan o'r broses.

Mae gan y Panel awdurdod dirprwyedig gan Weinidogion Cymru i wneud penderfyniadau am apeliadau a gall:

- ganfod bod yr ymgeisydd yn gymwys i gael y taliad a rhoi'r cyfarwyddyd angenrheidiol ar gyfer talu
- canfod nad yw'r ymgeisydd yn gymwys i gael y taliad ac anfon llythyr ato yn amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad
- cyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru os na all y Panel wneud penderfyniad hyderus

Ni all y Panel newid meini prawf cymhwysedd y cynllun.

Bydd cam 2 o'r broses apelio yn cael ei gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol: canllawiau i weithwyr gofal cymdeithasol](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).